**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

# CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR FFORDD PEN-Y-MAES, TREFFYNNON

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Pâl i Gerddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Ffordd Pen-Y-Maes, Treffynnon, fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan pâl. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan barhaol yn y lleoliad y mae Hebryngwr Croesfannau Ysgol yn weithredol ar hyn o bryd, a fydd yn helpu siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y cyfleuster o fudd nid yn unig i blant sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol ar amseroedd dechrau a gorffen arferol yr ysgol, ond hefyd y rhai sy'n mynychu clybiau bore neu ar ôl ysgol pan nad oes hebryngwr ar ddyletswydd neu yn ystod absenoldebau. Bydd hefyd yn gwasanaethu'r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y gwaharddiad arferol ar gerbydau yn parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y briffordd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar ddwy ochr y groesfan, yn weithredol.

Bydd copi o'r Hysbysiad hwn a chynllun yn dangos y ffordd y mae'r cynnig yn effeithio arni, ar gael yn Sir y Fflint yn Cysylltu, 24 Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7LH yn ystod oriau agor arferol. Fe fydd y dogfennau hefyd ar ein gwefan yn www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gallwch ofyn am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener, 6 Rhagfyr 2024, neu drwy anfon e-bost at Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/PYMH/Puffin

## ATODLEN

**Gosod Croesfan Pâl Newydd i Gerddwyr**

**Ffordd Pen-Y-Maes, Treffynnon -** ger y gyffordd â Rose Hill.

Dyddiedig 15 Tachwedd 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF


Streetscene


BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.


| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | KJ |
| CHECKED BY: | CO |
| SCALE: | NTS |
| NAT. GRID REF: | N/A |

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Proposed puffin crossing

Pen y Maes Road, Holywell
Near Rose Hill
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/11/0000 | 101 | C1